**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-851
Ein cyf/Our ref KS/03114/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@llyw.cymru

Annwyl David,

8 Tachwedd 2018

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref ynglŷn â Deiseb P-05-851 sy'n galw arnom i ddileu'r cyfyngiad amser ar y gilfan i'r dwyrain o Grucywel.

Rwyf wedi anfon ateb at Gyngor Tref Crucywel ac er fy mod yn deall y pryderon a fynegwyd am y diffyg lleoedd parcio yn y dref, ni fwriedir i gilfannau ar gefnffyrdd fod yn feysydd parcio.

Cafodd y cyfyngiad amser ei gyflwyno yn y gilfan benodol hon oherwydd bod masnachwyr yn ei chamddefnyddio ac oherwydd ei bod yn cael eu defnyddio ar gyfer parcio cyfnod hir.

Deallaf fod Cyngor y Dref wedi cysylltu â'r awdurdod lleol a bod y Cyngor wedi cytuno mai'r awdurdod hwnnw sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys y problemau parcio yn y dref oherwydd mai ef sy'n gyfrifol am benderfynu ar le a sut y gellir parcio ar y stryd.

Yr eiddoch,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.